WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Simon Smith
Prif Swyddog Tân
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
LL17 OJJ

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 652A2012 |
| **Dyddiad** | 8 Ionawr 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **5** |

Annwyl Simon

## Asesiad Gwella

Mae gofyn i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 23 Hydref 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar b'un a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant;
- fy safbwyntiau, ar ddibynadwyedd hunanwerthusiad yr Awdurdod;
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.

Rwyf wedi llunio fy marn drwy:

- adolygu Asesiad yr Awdurdod o'i Berfformiad a luniwyd ac a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod erbyn 31 Hydref 2012, lle y nodwyd ei berfformiad ar gyfer 2011-12;
- cynnal cyfweliadau â rheolwyr ac adolygu dogfennau ategol mewn sampl o'r meysydd gwasanaeth a nodwyd yn yr adroddiad;
- profi dibynadwyedd sampl o ddangosyddion perfformiad.

At hyn byddaf hefyd yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd yr Awdurdod dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer yr Awdurdod erbyn diwedd Mawrth 2013.

## Mae’r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Drwy gyhoeddi ei Asesiad o Berfformiad erbyn y terfyn amser o 31 Hydref 2012 ar fformat electronig, mae’r Awdurdod wedi cydymffurfio â’r gofynion statudol a amlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar y Mesur, o dan Adran 15 (7). Cymeradwywyd yr Asesiad o Berfformiad gan y Panel Gweithredol ar 15 Hydref 2012 ac mae ar gael ar wefan yr Awdurdod, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae’r adroddiad yn cynnwys 10 amcan gwella ynghyd â chamau gweithredu ategol, sy’n cwmpasu’r cyfnod 2011-12. Mae’r Awdurdod yn crynhoi canlyniadau’n glir ac yn cynnwys tystiolaeth ddigonol i ddangos p’un a yw wedi cyflawni gwelliant neu’n cynnal trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

Cafodd pob dangosydd perfformiad statudol ei gynnwys yn yr adroddiad, a’i asesu’n briodol gan yr Awdurdod, a’i gyflwyno mewn modd sy’n adlewyrchu arfer da, yn ein barn ni.

## Cymerodd yr Awdurdod gamau cadarnhaol i roi cyhoeddusrwydd i’w Asesiad o Berfformiad

Mae adroddiad yr Awdurdod ar gael ar ffurf electronig a sicrhawyd ei fod ar gael i’r cyhoedd graffu arno drwy hyrwyddo’r ffaith ei fod ar gael drwy ohebiaeth e-bost uniongyrchol at randdeiliaid a sicrhau ei fod ar gael yn hawdd ar wefan yr Awdurdod (ond nid ar yr hafan). Mae copïau ar gael ar gais o Bencadlys y Gwasanaeth ond gall dibynnu ar y ffurf electronig hon fod yn broblem i rai pobl. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol, fel Twitter, i hyrwyddo’r Asesiad o Berfformiad a chael adborth gan y cyhoedd.

Mae’r Awdurdod wedi llunio Crynodeb o Berfformiad ar wahân sy’n glir, yn hawdd ei ddeall, yn cymharu cynnydd yn erbyn y 10 amcan gwella ac yn adlewyrchu’n gywir yr adroddiad Asesu Perfformiad llawn. Mae’n dangos y camau gweithredu a gwblhawyd ac effaith y camau hynny o ran canlyniadau i’r cyhoedd, mewn ffordd gryno sydd, yn ein barn ni, yn arfer da. Mae’r Awdurdod yn bwriadu dosbarthu hyn yn eang drwy roi copïau mewn llyfrgelloedd cyhoedd a mannau gwybodaeth y cyngor, yn ogystal â dosbarthu mewn digwyddiadau (sioeau amaethyddol, eisteddfodau ac ati) ac ar wefan yr Awdurdod (er nad oedd hyn wedi’i gwblhau adeg ysgrifennu’r llythyr hwn).

### Mae'r Awdurdod wedi llunio barn fwy cytbwys ar ei berfformiad yn 2011-12

Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol (Ionawr 2012) nodwyd bod Cynllun Gwella'r Awdurdod a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2011 yn cynnwys asesiad cyffredinol o gynnydd yr Awdurdod yn erbyn ei amcanion gwella a rhai cymariaethau â sefydliadau eraill ond:

- bod rhai o'r asesiadau yn fyr ac yn tueddu i ganolbwyntio ar y pethau cadarnhaol;
- nad oedd yr adroddiad yn cynnwys arfarniad beirniadol o farn yr Awdurdod ar ei berfformiad cyffredinol na'r hyn y bydd yn ei wneud yn wahanol o ganlyniad i hynny.

Mae'r Awdurdod yn dangos mwy o hunanymwybyddiaeth o gymharu â'r llynedd drwy roi cyfrif mwy cytbwys o'i berfformiad; gan roi cyfrif am fethiannau yn ei berfformiad, yn ogystal â hyrwyddo ei lwyddiannau.

Mae'r Asesiad o Berfformiad yn disgrifio perfformiad yn erbyn pob un o'i 10 amcan gwella ac mae'n cynnwys sylwadaeth ar yr heriau a wyneba o hyd a'r hyn y mae'r Awdurdod yn bwriadu ei wneud i'w hateb.

Mae datganiadau clir a diamwys ar gael ar gyfer pob amcan gwella sy'n rhoi barn yr Awdurdod ar b'un a yw wedi'i gyflawni'n llwyr ai peidio.

Er bod y naratif yn hir mewn mannau, mae'n hawdd ei ddarllen a'i ddeall gydag esboniadau da o iaith 'dechnegol' sy'n gysylltiedig â'r sector tân ac achub (yn cynnwys geirfa mewn adran ar wahân). Byddai gwaith mireinio pellach o ran cyfeirio a chroesgyfeirio yn egluro cysylltiadau rhwng dangosyddion perfformiad 'mesurau llwyddiant' a'r naratif, ac yn helpu'r darllenwr 'drwy'r' ddogfen.

Mae adolygiad o berfformiad yn swyddogaeth reolaidd ac arferol drwy'r sefydliad cyfan, yn cynnwys rheolwyr ac aelodau yn y gwaith o asesu a rheoli perfformiad. Caiff canlyniadau perfformiad eu dadansoddi, gyda'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd gwan a heriau yn y dyfodol. Mae'r broses o baratoi'r Asesiad o Berfformiad hefyd yn rhoi ffocws i'r Awdurdod herio ei hun, dysgu a myfyrio ar ei berfformiad, ac adrodd ar ei gynnydd i'r cyhoedd.

## Mae'r Awdurdod wedi defnyddio ystod eang o wybodaeth berthnasol i lunio ei gasgliadau ond cyfyngedig yw'r defnydd o ddata cymharol

Rhoddodd yr Awdurdod ystod eang o dystiolaeth i wneud asesiadau dilys o berfformiad drwy esbonio bwriadau a rhoi disgrifiadau o gynnydd.

Canfu ein Harchwiliad o Ddangosyddion Perfformiad ar gyfer 2011-12 fod gan yr Awdurdod systemau dibynadwy ar waith i sicrhau bod y dangosyddion perfformiad a ddefnyddir ganddo yn ei adroddiadau yn gywir. Mae'r Awdurdod wedi mynd i'r afael â'r mater a godwyd yn ystod ein Harchwiliad o Ddangosyddion Perfformiad 2010-11 o ran gwella cywirdeb y data a ddelir yn y System Cofnodi Digwyddiadau mewn perthynas â digwyddiadau 'dros y ffin'.

Mae'r Awdurdod yn darparu data ynglŷn â pha mor dda y mae wedi perfformio o gymharu â'r pedair blynedd flaenorol ond nid oes cymhariaeth â'i dargedau ar gyfer y flwyddyn. Nid oes cymhariaeth ag awdurdodau gwella a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru gan gynnwys awdurdodau tân ac achub Cymru) nac ychwaith ag awdurdodau tân ac achub ledled y DU (er bod Cynllun Lleihau Risg Gwella ar Cyd 2010-11 i 2012-13 sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn cynnwys rhywfaint o ddata cymharol). Ni ddefnyddir gwybodaeth o arolygon boddhad nac arolygon o ddinasyddion i gadarnhau barn y gymuned ehangach yn yr asesiad. Awgryma Llywodraeth Cymru hefyd, yn ei Fframwaith Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, y dylid cynnwys y mesurau canlynol (lleol yn bennaf):

- perfformiad o ran gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd;
- perfformiad o ran lleihau nifer yr anafiadau gweithredol ymhlith diffoddwyr tân;
- perfformiad o ran cynnal cymhwysedd gweithredol;
- perfformiad yn erbyn Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Awdurdod Tân ac Achub Cymru (er bod rhywfaint o ddata ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i gynnwys);
- perfformiad yn erbyn Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod.

Mae proses hunanasesu'r Awdurdod yn ymddangos yn berthnasol i anghenion defnyddwyr. Caiff canlyniadau rhagweledig eu nodi ar flaen pob adran yn cynnwys y cam gweithredu arfaethedig sydd hefyd yn helpu i roi cyd-destun ar y rheswm pam bod yr Awdurdod yn gwneud y gwaith hwn. Caiff cynnydd gwirioneddol yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig hyn eu disgrifio ac mae gwerthusiadau yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n golygu y dylai'r cyhoedd fod yn gallu deall effaith y camau gweithredu.

Darperir gwybodaeth am achosion o'r Awdurdod yn cydweithio yn ystod y flwyddyn yn yr Asesiad o Berfformiad fel y bo'n briodol. At hyn, mae adran ar wahân yn disgrifio sut a pham y cyflawnwyd gwaith ar y cyd ac yn rhoi enghreifftiau pellach o brosiectau sy'n mynd rhagddynt.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Caiff un cynnig newydd ar gyfer gwella ei awgrymu yn y llythyr hwn. Bydd cynnwys rhagor o ddata cymharol yn helpu'r Awdurdod i esbonio ei gyflawniadau a heriau yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan yr Awdurdod o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Copi: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lisa Williams, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad